Chartered Institute of Housing Cymru

# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-2024



www.cih.org | 024 7685 1789

Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-2023

Chartered Institute of Housing Cymru

## Cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion ei chyllideb ddrafft ar 13 Rhagfyr 2022. Amlinellodd y gweinidog cyllid fod hon yn gyllideb "a grëwyd mewn amseroedd caled ar gyfer amseroedd caled". Mae economi'r DU mewn dirwasgiad ac mae chwyddiant ar ei lefel uchaf mewn 40 mlynedd. Er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru mae'r gweinidog wedi adolygu ac ail-flaenoriaethu gwariant er mwyn ffocysu'r adnoddau cyfyngedig ar y meysydd o'r angen mwyaf.

Er y bu cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i bwysau chwyddiant mae hyn wedi arwain at 8% yn llai o fuddsoddiad cyfalaf mewn termau real a gallai'r setliad a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU fod werth £1bn yn llai yn 2023-24. Ond hyd yn oed yn erbyn y cefndir hwn o gyfyngiadau ariannol mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y lefelau buddsoddi cyfalaf a amlinellwyd yng nghyllideb 2022/23.

## Ymrwymiad cadarn i dai cymdeithasol

Mae'r cyllid ar gyfer datblygiad parhaus cartrefi cymdeithasol carbon isel wedi'i gynnal. Y cyfansymiau sydd ar gael yw:

- 2023/24 - £330m
- 2024/25 - £325m

Ond er i'r lefelau hyn gael eu cynnal mae'r lefelau chwyddiant presennol yn golygu na fydd yr arian hwn yn mynd mor bell. Er i ni groesawu'r ymrwymiad parhaus y mae'r gweinidog cyllid wedi'i ddatgan mae'n bosib y bydd y cyllid hwn yn darparu mwy na chartrefi newydd yn unig yn y dyfodol. Mae'n bosib hefyd y bydd yn cynnwys cartrefi y gwellwyd eu safon a thai gwag sy'n cael eu hadfer i ddefnydd.

Gyda'i ffocws ar roi adnoddau i'r sector barhau â'i gynnydd wrth ymdrin â'r argyfwng hinsawdd mae Llywodraeth Cymru wedi cadw **£400m ar gyfer datgarboneiddio** tai cymdeithasol presennol (hyd at 2024/25) (er bod hynny'n cynnwys £216m o gyllid gwaddol ar gyfer LSVT), gan gynnwys buddsoddi yn y Rhaglen Ôl-osod wedi'i Optimeiddio.

Mae diogelwch adeiladau hefyd yn amlwg gyda **£300m mewn cyllid** hyd at 2024/25.

Dyrannodd y gyllideb hefyd **£70m ar gyfer Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru** (neu unrhyw iteriad o'r rhaglen hon yn y dyfodol) sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a thaclo tlodi tanwydd yn y sectorau rhentu preifat a pherchennog preswyl.

Er mwyn cefnogi'r ymdrech i adeiladu tai cyffredinol ymhellach, mae'r gyllideb yn cynnwys **£50m ar gyfer tai ar y farchnad** ochr yn ochr â **£6.5m ar gyfer cynllun prynu cartrefi Llywodraeth Cymru**.

## Blaenoriaethau allweddol eraill

Mae **£10m ychwanegol wedi'i neilltuo i atal digartrefedd**. Mae hyn yn golygu bod **£46m wedi'i ddyrannu i atal digartrefedd yn 2023/24**. Gyda'r **£3m a ddarperir i gynllun prydlesu'r sector rhentu preifat**, mae hyn yn rhoi adnodd ychwanegol i awdurdodau lleol i gynyddu argaeledd llety i fynd i'r afael â digartrefedd.

Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn derbyn y gyllideb ychwanegol a ganlyn i'w helpu i lywio'r argyfwng costau byw:

- 2023/24 - £227m
- 2024/25 – £268m

Nid oes ymchwydd ychwanegol yn y cyllid a ddyrennir i'r Grant Cymorth Tai, a fydd yn aros ar £166m y flwyddyn.

Mae ymrwymiad i fuddsoddi **£165m pellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol** yn ychwanegol at y £9.4bn o gyllid presennol. **O fis Ebrill 2022 ymlaen bydd Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cymru'n derbyn y Cyflog**

**Byw Gwirioneddol. Mae £70m wedi cael ei ddyrannu** i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Bydd cefnogaeth barhaus i'r aelwydydd hynny yng Nghymru sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Bydd **£18.8m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Gronfa Cymorth Dewisol.**

Bydd buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion yn parhau gyda dyraniad ychwanegol o £9m.

Er mwyn i ymateb **Dyngarol Wcráin** barhau darperir y **cyllid canlynol i Awdurdodau Lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau**:

- 2023/24 - £40m
- 2024/25 - £20m

## Barn CIH Cymru

Rydym yn cydnabod y penderfyniadau anodd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol sylweddol, gyda setliad Llywodraeth y DU yn werth £1bn yn llai mewn termau real yn 2023/24. Yn erbyn y cefndir hwn mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad i'w groesawu i gynnal lefel y buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol, sy'n adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i ddatblygu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel yn nhymor y Senedd hon. Er hynny, fel yr amlinellir gan y gweinidog cyllid mae'n bosib na fydd hyn i gyd yn gartrefi newydd ond yn cynnwys cartrefi y gwellwyd eu safon a thai gwag sy'n cael eu hadfer i ddefnydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal lefel y cyllid i landlordiaid cymdeithasol ddatgarboneiddio eu stoc bresennol. Ond eto, mae'r cyllid hwn yn brin o gyfanswm y cyllid sydd ei angen. Hefyd, nid oes unrhyw ddyraniad cyllid i ddatgarboneiddio'r sector rhentu preifat. Fodd bynnag, mae yna ymrwymiad ariannu parhaus i ddiogelwch adeiladau.

Mae'n galonogol gweld yr ychwanegiadau cyllid ffafriol ar gyfer yr unigolion hynny yr effeithir yn sylweddol arnynt gan yr argyfwng costau byw trwy gynnydd yn y Gronfa Cymorth Dewisol. Bydd mawr angen hyn wrth i ni barhau i lywio'r argyfwng costau byw.

Rydym yn cydnabod y penderfyniadau anodd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud fel rhan o'r gyllideb ddrafft ac yn croesawu eu hymrwymiad parhaus i ddatblygu cartrefi cymdeithasol carbon isel ychwanegol yng Nghymru, rhan hanfodol o wireddu ymgorffori hawl i gartref digonol yng Nghyfraith Cymru.

## Mwy o wybodaeth

Bydd CIH Cymru yn parhau i ymgysylltu â phob plaid wleidyddol ar sut gall y gyllideb hon ymateb i anghenion gweithwyr tai proffesiynol ar draws Cymru. Os hoffech ddarparu eich barn am y gyllideb ddrafft, cysylltwch â: [cerys.clark@cih.org](mailto:cerys.clark@cih.org).

